OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 1999 No. 3184

## Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyniad Rhif 1) (Cymru) 1999

### Enwi, dehongli a chwmpas

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyniad Rhif 1) (Cymru) 1999.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 1977" yw Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) ("the 1977 Act");

ystyr "Deddf 1990" yw Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**2**) ("the 1990 Act").

ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Iechyd 1999 ("the Act");

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Diwrnodau penodedig

**2.**—(1) 1 Tachwedd 1999 yw'r diwrnod a bennir i bob darpariaeth y Ddeddf a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, i'r graddau y mae wedi'i nodi yno.

(2) 1 Rhagfyr 1999 yw'r diwrnod a bennir i bob darpariaeth y Ddeddf a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, i'r graddau y mae wedi'i nodi yno.

### Darpariaeth arbed

**3.** Er gwaethaf y diddymiadau a achosir gan baragraff 83(1) a (4) o Atodlen 4 i'r Ddeddf yn rhinwedd y Gorchymyn hwn, ymdrinir ag unrhyw gyfarwyddiadau i Ymddiriedolaethau NHS yng Nghymru a roddir o dan baragraff 6 o Atodlen 2 i Ddeddf 1990 ac sydd mewn grym yn union cyn 1 Rhagfyr 1999 fel petaent wedi'u rhoi o dan, ac at ddibenion, adran 17 o Ddeddf 1977.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

*Dafydd Elis Thomas*
28 Hydref 1999 — Y Llywydd

(**1**) 1977 c. 49.
(**2**) 1990 c. 19